

Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol **Cyngor Sir Ceredigion** ar gyfer y flwyddyn 2025-26.

Y camau a gymerwyd i hybu teithiau teithio llesol	Gwnaeth Tîm Diogelwch y Ffordd Cyngor Sir Ceredigion gyflwyno hyfforddiant lefel 1 a 2 y Safonau Beicio Cenedlaethol i 465 o ddisgyblion cynradd. Hefyd cyflwynwyd hyfforddiant lefel 3 y Safonau Beicio Cenedlaethol i 22 o bobl (yn oedolion a phlant). Cyflwynwyd hyfforddiant Kerbcraft i 315 o ddisgyblion cynradd. Mae'r cynllun 'Beicio i'r Gwaith' yn cael ei gynnig i weithwyr Cyngor Sir Ceredigion drwy gydol y flwyddyn drwy becyn budd-daliadau staff. Mae'r Swyddog Teithiau Llesol o'r 'Walk Wheel Cycle Trust' wedi parhau i weithio gydag Ysgolion Ceredigion: Cwblhawyd Cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer Ysgolion gan Ysgol Cei Newydd ac Ysgol Llanfarian, gyda chynlluniau wedi'u diweddarau gan Ysgol Llwyn yr Eos ac Ysgol Penrhyncoch. Hyrwyddwyd a chefnogwyd 'Stroliwch a Roliwch 2026' gan Ysgolion Cynradd Llwyn yr Eos, Penrhyncoch, Penllwyn, Plascrug, Cei Newydd, Rhydypennau ac Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd i gyd yn cymryd rhan. Ysgol Llwyn yr Eos: Cyflwynodd y Swyddog Teithiau Llesol hyfforddiant ynghylch cynnal a chadw beiciau i staff a disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Trefnodd y Swyddog ddiwrnod 'Dr Beic' hefyd. Ers cael nifer fechan o feiciau ysgol, mae'r staff wedi bod yn cyflwyno sesiynau dysgu beicio rheolaidd, ac mae teithio llesol wedi cynyddu eto eleni. Diolch i'r gwaith caled hwn mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Arian Ysgolion Teithio Llesol a bydd y wobwr yn cael ei chyflwyno iddynt ym mis Medi. Ysgol Penrhyncoch (ac Ysgol Penllwyn) - Defnyddiodd y Swyddog Teithiau Llesol a'r Hyrwyddwr Teithio Llesol brwd beth o arian cronfa 'gwneud gwahaniaeth yn lleol' Nisa i ddod o hyd i feiciau ail law ar gyfer Ysgol Penrhyncoch. Yna cafodd y beiciau hyn eu gwirio a'u gwneud yn ddiogel i'w beicio gan y Swyddog Teithiau Llesol. Mae rhai disgyblion wedi'u hyfforddi i wneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol i
---	---

	feiciau. Mae Ysgolion Penrhyncoch a Phenllwyn bellach yn cyflwyno sesiynau sgiliau beicio unwaith yr wythnos yn ogystal â sgiliau sgwteri unwaith yr wythnos. Mae'r diwylliant teithio llesol yn dod yn fwy ymgorfforedig yn Ysgol Penrhyncoch ac maen nhw bellach yn gweithio tuag at Wobr Aur Ysgolion Teithio Llesol. Ysgol Penweddig – Derbyniodd pob disgybl ym Mlynnyddoedd 7, 8, 9 a 10 sesiynau trwsio tyllau mewn teiars gan y Swyddog Teithiau Llesol. Ysgol Llanfarian - Lansiwyd Teithiau Llesol yn yr ysgol ym mis Medi 2025 ac ers hynny maent wedi cyflawni sgiliau beicio, sgiliau sgwteri, 'Bod yn Llachar, Cael Eich Gweld', sesiynau trwsio tyllau, sesiwn yn defnyddio 'mesurydd cyflymder' pwrpasol (CA2) a sesiwn 'ein teithiau' pwrpasol (Sylfaen) gan y Swyddog Teithiau Llesol. Ysgol Wirfoddol Myfenydd – Lansiwyd Teithiau Llesol yn ystod gwasanaeth yn yr ysgol ac mae pob disgybl wedi derbyn sesiynau ar sgiliau sgwteri ac wedi cynnal diwrnod 'Dr Beic'. Ysgol Llanilar – derbyniodd pob disgybl sesiynau 'Bod yn Llachar, Cael Eich Gweld'. Ysgol Rhydypennau - derbyniodd y disgyblion sesiynau ar sgiliau beicio a sgiliau sgwteri a dangoswyd fideo yn ystod gwasanaeth o'r rhwydwaith teithio llesol newydd yn ardal Aberystwyth, er mwyn hysbysu'r disgyblion y gallant deithio'n ddiogel o'u pentref i'r dref (unwaith y bydd gwaith adeiladu'r cynllun wedi'i gwblhau yn 2026). Ysgol Plascrug - cynhaliwyd 'Diwrnod Hinsawdd' ym mis Chwefror 2026 a chyflwynodd y Swyddog Teithiau Llesol sesiynau 'Bod yn Llachar, Cael Eich Gweld', sesiynau trwsio tyllau a sesiynau cynnal a chadw beiciau y diwrnod hwnnw. Mae Ysgol Plascrug yn parhau i hyrwyddo teithiau llesol. Ysgol Cei Newydd - cofrestrodd yr ysgol ar gyfer Teithiau Llesol ym mis Ionawr 2026 a lansiwyd y cynllun yn ystod gwasanaeth, elwodd pob disgybl o sgiliau sgwteri. sgiliau beicio a diwrnod 'Dr Beic'. Hyrwyddo'r Cynllun Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg gan Swyddfa'r Wasg Cyngor Sir Ceredigion ym mis Ionawr 2026 oedd yn cynnwys hyrwyddo 'Cyswllt Teithio Llesol Waunfawr i Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig' a diweddariad ynghylch datblygiad y cynllun. Rhoddodd hyn wybodaeth am y gwaith adeiladu sydd ar ddod o ran 'Cam 2' ger y TRA487 a hefyd 'Cam 3' ar y Ffordd Sirol C1010. Mae'r holl ddiweddariadau am y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r cynllun hwn wedi'u hychwanegu at dudalen we Teithio
--	--

Llesol y Cyngor Sir: [Cynigion Cynllun Cyswllt Teithio Llesol - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Mae datganiadau i'r wasg gan Gyngor Sir Ceredigion yn cynnwys dyfyniadau gan yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol sy'n tynnu sylw at fanteision teithio llesol i iechyd a llesiant ein trigolion, y modd i gysylltu cymunedau a rhoi mynediad at fannau gwyrdd, gan gyfrannu at uchelgeisiau lleol a chenedlaethol ar gyfer lleihau carbon ac Aer Glanach.

Hyrwyddo cynllun uwchraddio llwybr Llyfrgell Genedlaethol Cymru:



Defnyddiwyd y delweddau uchod ac isod ar y Cyfryngau Cymdeithasol gan Swyddfa'r Wasg y Cyngor er mwyn hyrwyddo'r datblygiadau:

- Rhwystrau wedi'u dileu er mwyn gwella hygyrchedd ✓
- Gosod llwybr llyfn newydd 3 metr o led ✓
- Dros 2,100 o deiars wedi'u hailgylchu wedi'u defnyddio ar y cynllun hwn ♻️ ❤️

Roedd y rhain yn bostiadau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd iawn gyda dros 40,000 yn bwrw golwg arnynt a 240 o ymatebion

cadarnhaol



	
Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig	Disgwylir i bob cynllun datblygu newydd o fewn Cyngor Sir Ceredigion ddarparu seilwaith Teithio Llesol ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio sy'n cael eu cyflyru drwy'r Broses Gynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth. Disgwylir i'r holl ddatblygiadau ddarparu seilwaith Teithio Llesol trwy naill ai gwaith priffyrdd S278 / S38 a / neu gyllid S106. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni gwaith adeiladu ar 'Gam 2' Cynllun Cyswllt Teithio Llesol 'Waunfawr i Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig' ger y TRA487. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar Gam 2 ym mis Chwefror 2026 a'i orffen ym mis Mehefin 2026. Bu hyn yn gyfrifol am gwblhau 'Cam 2' o'r llwybr defnydd a rennir newydd. Gweithiodd Swyddogion Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion yn effeithiol gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Eiddo i gynllunio a chyflwyno mesurau diogelwch ar y ffyrdd a theithio llesol ar gyfer ysgol ardal newydd Ysgol Dyffryn Aeron yn Felinfach. Mae'r ysgol newydd hon yn cynnwys y canlynol: Mesurau tawelu traffig newydd ar yr A482 o dan Adran 278 yn gweithio i gefnogi'r fenter Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

	Gostyngwyd y terfyn cyflymder hefyd o 40 mya i 20 mya gan gwmpasu'r ardal dawelu traffig hon wrth fynedfa'r ysgol. • Gosodwyd llwybr troed newydd ger yr A482 o fynedfa'r ysgol, gan gysylltu tua'r dwyrain â rhai eiddo preswyl a'r gampfa 'Cattlestrength' sy'n gyrchfan boblogaidd. • Gosodwyd llwybr troed newydd o fynedfa'r ysgol tua'r gorllewin sy'n cysylltu â mynedfa Clwb Pêl-droed Felinfach a chanol y pentref. • Gosodwyd llwybr troed newydd o gefn tir yr ysgol gan ddarparu cysylltiad mwy uniongyrchol ag ystâd dai Bro Henllys. • Gosodwyd cysgodfan feiciau newydd ar dir yr ysgol. • Cynhwyswyd croesfannau sebra newydd ar safle'r ysgol i roi blaenoriaeth i gerddwyr dros gerbydau. Nid yw dadansoddiad o'r costau hyn ar gael gan fod yr holl fesurau uchod hyn wedi'u cynnwys yn y pecyn cyffredinol ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd. Parhaodd Swyddogion y Gwasanaeth Priffyrdd i weithio mewn partneriaeth â Thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion i ddatblygu cynigion ar gyfer ymestyn Llwybr Ystwyth o Gors Caron i Dregaron.
Costau a ysgwyddir ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol	<u>Cronfa Teithio Llesol</u> Grant Dyraniad Craidd (Mae'n cynnwys costau adeiladu mân waith i Gynllun Uwchraddio Llwybr y Llyfrgell Genedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys costau datblygu cynlluniau Llwybrau at y Dyfodol h.y. cynlluniau sydd heb eu hadeiladu eto). £431,115.07 Cynllun Teithio Llesol Cysylltu Waunfawr ac Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig – Adeiladu Cam 3A1 y Cynllun £461,601.71 <u>Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u> Cam 4 Llwybr Troed Rhiwgoch (datblygu'r cynllun) £3,119.21 Tawelu Traffig a Gwelliannau o ran Hygyrchedd i Gerddwyr yn Llanrhystud (adeiladu'r cynllun) £176,880.79 Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau £ 10,282.42 Cyfraniad Cyllid gan Gyngor Sir Ceredigion £187,163.21 Cyfanswm

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu cyllido neu eu cyllido'n rhannol gan drydydd partïon.	Ariannwyd gwaith adeiladu Cam 2 y 'Cynllun Cyswllt Teithio Llesol Waunfawr i Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig' gan Gefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y gwaith hwn yn y flwyddyn ariannol 2025-26 ac fe'i cwblhawyd yn y flwyddyn ariannol ganlynol sef 2026-27.
Hyd llwybrau newydd: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	435 metr Ddim yn berthnasol 235 metr
Hyd y llwybrau wedi eu gwella: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	Ddim yn berthnasol Ddim yn berthnasol 290 metr
Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell	'Cyswllt Teithio Llesol Waunfawr i Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig' – Cam 3A1 (Cronfa Teithio Llesol) • 235 metr o lwybr defnydd a rennir newydd wedi'i adeiladu ar 2.5 metr o led. • 18 metr o droedffordd newydd wedi'i osod ar 2 fetr o led. • 1 cwrw isel wedi'i osod a phâr o groesfannau cyffyrddol newydd. • 1 groesfan newydd wedi'i chodi'n uchel sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr gyda phâr o balmentydd cyffyrddol wedi'u gosod (yn cysylltu â Rhan 3B o'r llwybr defnydd a rennir a adeiladwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-2025). • 8 bolard newydd.

- 2 golofn golau newydd.
- 11 arwydd newydd (gyda 6 arwyddbost newydd).
- 2 arwydd dros dro 'Cynllun ffordd newydd o'ch blaen' (ar arwyddbyst a oedd yno yn barod).
- Marciau ffordd newydd 'Give Way / ARAF SLOW' wedi'u gosod ar gyfer y Groesfan newydd wedi'i chodi'n uchel sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr.
- Mae'r gwrych ffawydd a oedd yno'n barod wedi'i drawsleoli. Mae coeden dderw aeddfed a oedd yno wedi'i chadw trwy ddargyfeirio'r llwybr newydd y tu ôl i'r goeden hon a gosod haen o geodecstil fel modd o ddiogelu'r gwreiddiau. Mae cymysgedd o goed newydd o rywogaethau brodorol wedi'u plannu.
- Gosodwyd byffer o ymyl gwyrdd oddeutu 1 metr o led rhwng y llwybr a'r gerbyttffordd ac adeiladwyd hwn fel pant bas at ddibenion draenio cynaliadwy, lle'r oedd y lled priodol yn caniatáu hynny (h.y. nid o flaen 'Splash Cottages').

Lluniau o'r cynllun yn cynnwys y groesfan newydd wedi'i chodi'n uchel sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, ar ôl i'r gwaith cael ei wneud:





Uwchraddio Llwybr Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Cronfa Teithio Llesol - Mân Weithiau Craidd)

- 230 metr o lwybr '*flexipave*' newydd gydag arwyneb hydraiddd, wedi'i osod ar 3 metr o led ar gyfer defnydd a rennir.
- 60 metr o wyneb tarmac newydd i uwchraddio'r llwybr ar 4 metr o led at ddibenion defnydd a rennir.
- 1 cysgodfan feiciau newydd gyda rac ar gyfer 5 beic wedi'i gosod yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- 1 cysgodfan feiciau newydd gyda rac ar gyfer 2 feic wedi'i gosod yng Ngorwelion.
- 2 fainc newydd o blastig wedi'i ailgylchu wedi'u gosod.
- 1 twmpath cyflymder sinwsaidd wedi'i osod ar ffordd y Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrth agosáu at y groesfan Teithio Llesol.
- 5 marciau 'ARAF SLOW' newydd wedi'u rhoi ar y ffordd ar gyfer beicwyr.
- 3 marc 'Give Way' wedi'u rhoi ar y ffordd ar gyfer beicwyr.
- 10 arwydd beicio newydd wedi'u gosod ar 6 arwyddbost newydd.
- 13 bolard newydd wedi'u gosod.
- 2 glwyd newydd wedi'u gosod i atal mynediad i gerbydau (ond sy'n caniatáu mynediad gan feicwyr a cherddwyr).
- Pantiau a suddfannau dŵr newydd wedi'u gosod fel mesurau draenio sy'n cydymffurfio â'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy.
- Palmentydd rhybuddio wedi'u gosod mewn 2 leoliad.

- 3 phâr o groesfannau newydd gyda cyrbiau isel a phalmant cyffyrddol newydd wedi'u gosod (2 bâr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac 1 phâr yn Stryd Cae Glas yn y Dref).
- 1 phâr o balmentydd cyffyrddol newydd wedi'u gosod ar y groesfan bresennol sydd wedi'i chodi'n uchel ac sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- 2 phâr o glwydi mochyn pren (rhwystrau) wedi'u gwaredu i wella'r hygrychedd ar gyfer defnyddwyr teithio llesol.

Llun cyn i'r cynllun gael ei gyflawni gyda llwybr cul a chlwydi yn rhwystr:



Llun wedi i'r cynllun gael ei gyflawni gyda'r rhwystr wedi diflannu a'r llwybr yn llyfnach ac yn lletach:



Cynllun Llanrhystud (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau)

- 1 cysgodfan newydd caeedig ar gyfer beiciau a sgwteri wedi'i gosod yn yr ysgol.
- 2 golofn golau stryd newydd.
- 3 croesfan wedi'u codi'n uchel ac sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr gyda phalmant cyffyrddol (mae'r un yn yr Ysgol Gynradd hefyd yn cynnwys adeiladwaith estynedig i helpu i atal parcio ar y groesfan).
- 3 twmpath cyflymder sinwsaidd newydd wedi'u gosod (a ariennir gan gyllideb Cyfalaf Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion).
- 1 groesfan cwrw isel newydd a phalmant cyffyrddol nad yw'n cael ei reoli.
- 1 troedffordd wedi'i llydanu gyda chwrw isel newydd a phalmant cyffyrddol sy'n groesfan nad yw'n cael ei rheoli (roedd y ddarpariaeth yma wedi'i halinio'n anghywir yn flaenorol ac nid oedd yn cyrraedd y safon dylunio).
- 2 arwydd rhybuddio 'Cerddwyr' newydd ar fyrddau o gefndir melyn ar gyfer gwelededd gwell.
- 5 arwydd rhybuddio 'Twmpath' newydd (3 gyda phlatiau pellter atodol).
- 5 marc crwn newydd yn nodi 20mya.
- 4 marc 'ARAF SLOW' newydd ar y ffordd.
- 18 bolard newydd.
- 9 gyli newydd ar gyfer draenio'r Briffordd.
- Tua 140 metr o lwybr Rhwyll Plastig newydd wedi'i osod ar ymyl werdd y B4337 tuag at y Clwb Golff.

Croesfan newydd wedi'i chodi'n uchel sydd wedi'i chulhau gyda bolards a cholofn goleuadau newydd ger mynedfa'r Ysgol Gynradd:



Cysgodfan newydd ar gyfer beiciau a sgwteri wedi'i gosod yn yr Ysgol Gynradd:



	Ysgol Dyffryn Aeron – Ysgol Newydd a adeiladwyd yn Felinfach • 1 cysgodfan feiciau newydd wedi'i gosod. • 2 Dwmpath cyflymder sinwsaidd wedi'u gosod ger mynedfa'r ysgol. • Y terfyn cyflymder wedi'i ostwng o 40 mya i 20 mya sy'n cwmpasu mynedfa'r ysgol. • 122 metr o droedffordd tarmac newydd wedi'i osod o fynedfa'r ysgol i'r Clwb Pêl-droed a chanol y pentref. • 155 metr o droedffordd arwyneb hydraidd wedi'i gosod o fynedfa'r ysgol i gyfeiriad y dwyrain i gysylltu ag eiddo preswyl a champfa 'Cattlestrength'. • Gosodwyd troedffordd newydd yn y tir yng nghefn yr ysgol sy'n darparu cysylltiad uniongyrchol ag Ystâd Bro Henllys. • Gosodwyd croesfannau Sebra newydd yn yr ysgol i roi blaenoriaeth i gerddwyr.
--	--

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

1 pâr o gownteri Rhwydwaith Ardal Eang Ystod Hir (LoRaWAN) newydd wedi'u gosod (Lôn Waungau)

Diweddarwyd y dudalen we ar gyfer Teithio Llesol i ddarparu dolenni gwe i sefydliadau beicio allanol megis: Cycling UK / Walk Wheel Cycle Trust / Cyfeiriadur Beicio Cymru a hefyd darparwyr llogi e-feiciau lleol megis: Dolen Teifi / Eco Hwb Aber.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

Mr Eifion Evans

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru:

15/09/2026

